# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 09.08.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr J.R. Jones a Dewi Llewelyn

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B. Edwards (Cyfreithiwr), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Ffion Muscroft (Swyddog Iechyd Amgylchedd) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Ymgeiswyr:**
**Ar ran Tyn Llan (Gwesty'r Harp), Llandwrog:** Mrs Maria Owen a Mr Richard Owen (Ymgeiswyr)

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr Duncan Grundy, Mrs Pauline Grundy, Mrs Pippa Adams

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Eric M. Jones

## 1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO TYN LLAN (GWESTY'R HARP), LLANDWROG

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais ar ran Tyn Llan (Gwesty'r Harp), Llandwrog i wyro trwydded yr eiddo fel a ganlyn –
i) Caniatau cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformio dawns a darparu cyfleusterau gwneud cerddoriaeth, i gyd tu fewn a thu allan i'r adeilad, rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 11.00 a 23.30 ar ddydd Sul.
ii) Darparu cyfleusterau dawnsio tu fewn a thu allan i'r adeilad, rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Sul.
iii) Darparu lluniaeth hwyr yn y nos tu fewn a thu allan i'r adeilad, rhwng 23.00 a 05.00 dydd Llun i ddydd Sul.
iv) Darparu alcohol tu mewn a thu allan i'r adeilad, rhwng 11.00 a 00.00 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 11.00 a 23.30 dydd Sul.
v) Oriau agor i'r cyhoedd rhwng 11.00 a 00.30 dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 11.00 a 00.00 dydd Sul.

Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu a'r Adran Iechyd Amgylchedd a llythyrau gan drigolion cyfagos yn datgan gwrthwynebiad i'r oriau ychwanegol. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub wrthwynebiad i'r cais ac nid oedd gan yr Adran Safonau Masnach unrhyw sylwadau. 'Roedd Cyngor Cymuned Llandwrog yn cefnogi'r cais ond tynnwyd sylw at yr angen i fonitro'r lefelau sŵn gan bod rhai o drigolion y pentref wedi cwyno bod y sŵn yn uchel ar adegau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau.

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr ac adroddodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu nad oes ganddo dystiolaeth digonol i wrthwynebu'r cais. Nododd nad oes unrhyw dystiolaeth o drosedd ac anhrefn yn bodoli yno ond cadarnhaodd y derbyniwyd galwadau ffôn parthed lefelau sŵn yn yr eiddo o ran adloniant a gymerodd le yno. Cynhaliwyd cyfarfod gyda deilydd y drwydded ar 22 Mehefin 2010 i drafod rhai agweddau o'r cais. Mae'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn yr eiddo yn ddiweddar wedi eu caniatau dan rybudd digwyddiad tros dro.

Nododd y Swyddog Iechyd Amgylchedd y derbyniodd yr Adran Gwarchod y Cyhoedd dair cwyn ar 5 Gorffennaf 2010 parthed yr adloniant a gynhelir yn y babell fawr (marquee) tu allan i'r eiddo. Cymerwyd mesuriadau sŵn a chadarnhaodd bod y gerddoriaeth yn gallu bod yn glywadwy yn yr eiddo cyfagos sydd oddeutu 30 metr i ffwrdd o'r babell. 'Roedd yn gwrthwynebu cynnal adloniant fel cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio tu allan i'r eiddo e.e. yn y babell fawr, ond nid oedd gwrthwynebiad i'w gynnal tu fewn i'r dafarn ei hun.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr gan nodi'n benodol y pwyntiau canlynol –

- Yn dilyn caniatau'r rhybudd digwyddiad tros dro cafwyd sŵn cerddoriaeth uchel yn dod o'r babell fawr a oedd yn amharu ar fwynderau'r trigolion cyfagos. Nodwyd bod rhai o'r trigolion yn byw oddeutu 15 llathen i'r man lle y lleolwyd y babell.
- Os y caniateir estyniad i'r oriau cyflenwi alcohol presennol, rhagwelir problemau gyda mynychwyr y dafarn yn gadael y lle yn hwyr yn y nos ac yn achosi sŵn.
- Problemau gyda cerbydau rhai o fynychwyr y dafarn yn cael eu parcio tros nos ar ffyrdd rhai o'r ystadau tai gerllaw.
- Bod pobl ifanc yn gadael y dafarn ac yn chwydu ac yn piso yn y gerddi ac ar y stryd.

Nododd yr aelod lleol nad oes unrhyw achos o drosedd nac anhrefn wedi digwydd yn gysylltiedig â'r eiddo hwn ac mai lefel y sŵn yw'r unig fater sy'n poeni rhai o'r trigolion. Cyfeiriodd at y ffaith bod yr ymgeisydd yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol y pentref a'r ysgol. Nododd hefyd bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais ond dylid cymryd camau i geisio monitro lefel y sŵn.

Wrth gefnogi'r cais ac ymateb i rhai o'r sylwadau uchod, hysbysodd yr ymgeisydd –

- Bod y mwyafrif o'r pentref yn gefnogol i'r cais ac y ceisir cydweithrediad gyda'r rhai sy'n cwyno am y sŵn.
- Nad yw'n fwriad i'r babell fawr fod ar y safle drwy'r flwyddyn, dim ond yn ystod misoedd yr haf ac ar gyfer achlysuron arbennig yn unig.
- Y gofynnir am yr estyniad i'r oriau oherwydd yr angen efallai i gynnal adloniant mewn partion priodas a.y.
- Nad oes tystiolaeth i brofi bod yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y pentref yn deillio o gwsmeriaid wedi mynychu'r dafarn hon.
- Bod y mwyafrif o'r cwsmeriaid yn parcio eu cerbydau tros nos yn y maes parcio tu cefn i'r dafarn ac nid yw'n amharu ar y sefyllfa parcio yn y pentref ei hun.

Gadawodd yr ymgeiswyr, cynrychiolydd yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, y Swyddog Iechyd Amgylchedd, yr aelod lleol a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

'Roedd yr aelodau'n gytun y dylid cyfyngu'r holl weithgareddau o fewn yr adeilad yn unig gan ei fod yn anodd i reoli sŵn mewn pabell fawr.

**PENDERFYNWYD caniatau gwyro trwydded Tyn Llan (Gwesty'r Harp), Llandwrog fel a ganlyn –**
**a) Caniatau cerddoriaeth fyw dan baragraff E o 11.00 i 00.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 11.00 i 23.30 ar ddydd Sul o fewn yr adeilad yn unig.**
**b) Caniatau cerddoriaeth wedi ei recordio dan baragraff F o 11.00 i 00.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 11.00 i 23.30 ar ddydd Sul o fewn yr adeilad yn unig.**
**c) Caniatau dawnsio dan baragraff G o 11.00 i 00.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 11.00 i 23.30 ar ddydd Sul o fewn yr adeilad yn unig.**
**ch) Caniatau darpariaeth ar gyfer cerddoriaeth dan baragraff I o 11.00 i 00.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 11.00 i 23.30 ar ddydd Sul o fewn yr adeilad yn unig.**
**d) Caniatau darpariaeth ar gyfer dawnsio dan baragraff J o 11.00 i 00.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 11.00 i 23.30 ar ddydd Sul o fewn yr adeilad yn unig.**
**dd) Caniatau cyflenwi bwyd poeth dan baragraff L o fewn a thu allan i'r adeilad rhwng 23.00 a 00.00 bob dydd o'r wythnos.**
**e) Caniatau gwerthu alcohol dan baragraff M o 11.00 i 00.00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 11.00 i 23.30 ar ddydd Sul.**
**f) Caniatau oriau agor dan baragraff 0 o 11.00 i 00.30 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac o 11.00 i 00.00 ar ddydd Sul.**

Adroddodd y Cyfeithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 12.00pm a daeth i ben am 1.45pm